

## CYNGOR BRO LLANGELER – 28-10-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Hydref 28ain 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **10/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Is Gadeirydd Cyng. D Evans Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Aled Eynon, Richard Evans, Ken Howell, Nesta Jones, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, John Wigley. Clerc – Stella Jones
2. **10/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. John Crossley, Aled Eynon, Brenda Jones.
3. **10/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-**
4. **10/19 HEDDLU:** Ymddiheuriad. Dwedodd Cyng K Howell bod y cyfarfod a gynhaliwyd yn y Neuadd ar y 4ydd o Hydref yn un da iawn.
5. **10/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Medi 30ain 2019 a'i cael yn gywir.  
Cynigydd – Cyng. A Thomas Eilydd – Cyng. D Smith
6. **10/19 MATERION YN CODI :**  
7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – dim ychwanegol i ychwanegi ar hyn o bryd  
10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – peintio yn dal heb ei wneud bydd y toiledau yn cau dros y Gaeaf ar ddiwedd y mis hwn  
10.i.06/17 Tir Temple – dim ychwanegol wedi digwydd  
6.xx. Les Cae Chwarae Maesyderi, Pentrecwrt – mae cyfreithiwr y Cyngor yn dal i aros i glywed wrth pwyllgor y Parc pwy yw ei Cyfreithiwr cyn medru bwrw mlaen a chwblhau'r les  
10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – dim i ychwanegu ar hyn o bryd  
7. xiii.05/19 – Ian Cameron – mae'r gwaith ar y llwybr wedi ei wneud  
10.ii.09/19 Golau Nadolig – ynghylch y switsh roedd Ian Butherway wedi addo dod nôl a pris erbyn y cyfarfod ond nid oedd y Clerc wedi derbyn dyfnbris ond roedd wedi awgrymu y dylid cael un fyddai ddim yn awtomatig gan ei bod yn broblemus.
7. **10/19 GOHEBIAETH:**
  - i. CSG – Poster newid mewn casglu bagiau du
  - ii. ebost – ULIC – Bwletin Newyddion Medi 2019 – *cylchlythyrwyd*
  - iii. ebost – CSG – Cau ffordd dros dro – C1295Ac1296 Felindre, Llandysul
  - iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 30.09.19 - 04.10.19 – *cylchlythyrwyd*
  - v. ebost – ULIC – Adroddiad Cyflwr y Genedl – *cylchlythyrwyd*
  - vi. ebost – CSG – Tafllen Credyd Pensiwn – *cylchlythyrwyd*
  - vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 07.10.19 - 11.10.19 – *cylchlythyrwyd*
  - viii. ebost – CSG – Galw nôl Cais Cynllunio W/39626 – *cylchlythyrwyd*
  - ix. ebost – ONE VOICE WALES & VE DAY 75 – *cylchlythyrwyd*
  - x. ebost – Deall Lleodd yng Nghymru – *cylchlythyrwyd*
  - xi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 14.10.19 - 18.10.19 – *cylchlythyrwyd*
  - xii. ebost – ULIC – Ymgynghoriad Adroddiad Blynnyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – *cylchlythyrwyd*
  - xiii. ebost – Age Cymru Sir Gâr – Gwybodaeth a Chyngor – budd-daliadau lles – *cylchlythyrwyd*
  - xiv. ebost – Llywod. Cymru – Democratiaeth Llywodraeth Leol – *cylchlythyrwyd*
  - xv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 21.10.19 – 25.10.19 – *cylchlythyrwyd*
  - xvi. ebost – ULIC – Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch y ddyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – *cylchlythyrwyd*
  - xvii. ebost – Ymgyrch #EverydayAgeism – *cylchlythyrwyd*
  - xxviii. C.F.F.I Sir Gâr – llythyr o ddiolch am y rhodd
  - xix. ebost – Poster ymladd Ffliw
  - xx. ebost – CSG – Apêl Nadolig – *cylchlythyrwyd*
  - xxi. ebost – Llywod. Cymru – Ymgynghoriadau Cynllun – *cylchlythyrwyd*

### **8. 10/19 CYNLLUNIO**

#### **Cais Ymgynghori llawn**

W/39564 – Agri land S.W. of Bancyffordd, SA44 5AB – gosod polyn telegraff 15m. mast telathrebu, 4 Cyfarpar Gwyrdd, 2 Antenna, 3 Dysgl Trawsyrant a datblygiadau ategol – *dim gwrthwynebiad*  
Galwyd nôl – W/39626 – Pantwn, Llangeler SA44 5ET – dargadwad o adeilad sengl unllawr i alluogi cadw menter busnes Bach.

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad

**9. 10/19 MATERION ARIANNOL**

**a. Anfonebau**

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 28/10/2019 .....£50.40
- ii. HIRIO NEUADD y DDRAIG GOCH – cyfarfod 28/10/19.....£7.00  
[caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn ]
- iii. DŴR CYMRU [Cwmins Cwmhiraeth].....£14.32
- iv. RYAN JONES[trasio] .....£1,500.00

Arian yn y Banc ar 20/09/19 .....£21,308.08

**b. S/O**

Cyflog y Clerc .....£600.00

**10. 10/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

- i. Sul y Cofio – Cyng R Evans i gynrychioli'r Cyngor yng Ngwasanaeth Llandysul  
– Pawb i ymgynnull yn yr Ysgol cyn y Gwasanaeth yn Felindre am 9.45am

**11. 10/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**

- 1. Cyng J Ayres – i. nododd bod ceir yn ceisio troi i'r dde ar gyffordd pont Henllan  
ii. nododd am y dathliad VE ym mis Mai 2020
- 2. Cyng J Wigley – i. ar ôl y glaw mawr wythnos diwethaf dwedodd bod llawer o ddŵr wedi cronni yn Dolhaidd ac nes  
lawr na Phensarnau – *Clerc i roi gwybod i'r Cyngor Sir*  
ii. dŵr yn cronni tu allan i Aberlleinau hefyd
- 3. Cyng A Thomas – i. draeniau ym Mhont Tyweli yn llawn dail
- 4. Cyng D Evans – i. da gweld bod Cylchfan ffordd osgoi Llandysul wedi cael ei drwsio, ynghyd a rhyw Cyrff lan o  
Temple i Benboyr.

**12. 10/19 CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul nos Lun Tachwedd 25ain 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.10yh

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad